**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref CG/PO/358/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

19 Hydref 2023

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi y cafodd cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder ei gynnal ar 12 Medi.

Rwyf o'r farn bod sefydlu'r grŵp hwn, a'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi'i chynnwys ynddo, yn gydnabyddiaeth bwysig bod y dirwedd gyfiawnder yng Nghymru yn wahanol i'r dirwedd yn Lloegr. Mae angen ystyried ei anghenion ar wahân felly, yn ogystal â sicrhau bod yr un arwyddocâd â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig yn cael ei rhoi iddi.

Cadeiriwyd y cyfarfod rhithwir gan yr Arglwydd Bellamy KC, gyda Llywodraeth y DU hefyd yn cael ei chynrychioli gan y Gwir Anrh David TC Davies AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Cynrychiolwyd Llywodraeth yr Alban gan Angela Constance ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder a Materion Cartref, a chynrychiolais i Lywodraeth Cymru.

Yn absenoldeb gweinidogion Gogledd Iwerddon, roedd Richard Pengelly, Ysgrifennydd Parhaol Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon yn bresennol ar ran Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon.

Mae datganiad sy'n crynhoi trafodaethau'r cyfarfod wedi'i gyhoeddi. Gellir dod o hyd iddo yma. Ymhlith y pwyntiau a godais i oedd awgrym y dylai'r grŵp edrych yn benodol ar gyfraddau aildroseddu; pryderon ynghylch gwahaniaethau ethnig ym mhoblogaeth carchardai; argaeledd data defnyddiol, yn enwedig o ran Cymru; y materion yn ymwneud â chydraddoldeb mynediad a all godi yn sgil newid prosesau cyfiawnder yn rhai digidol, er enghraifft yn y llysoedd; a'r angen am welliannau i Fil Dioddefwyr a Charcharorion Llywodraeth y DU, sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd.

Agorwyd y cyfarfod gyda chytundeb ynglŷn â Chylch Gorchwyl y grŵp sydd wedi'i gyhoeddi yma.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ymhen ryw bedwar mis. Unwaith y bydd wedi'i drefnu, byddaf yn rhoi gwybod ichi.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution